# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 3**

**Senedd a fideogynadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 22 Tachwedd 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

**Rhag-gyfarfod preifat** (09.15-09.30)

**Cyfarfod cyhoeddus** (09.30-11.30)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon, a datganiadau o fuddiant

(09.30)

## 2 Craffu blynyddol ar Drafnidiaeth Cymru

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 37)

James Price, Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru

Geoff Ogden, Prif Swyddog Cynllunio Trafnidiaeth a Datblygu, Trafnidiaeth Cymru

Jan Chaudry-Van Der Velde, Prif Swyddog Gweithrediadau, Trafnidiaeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil (Saesneg yn unig)

Papur - Trafnidiaeth Cymru

**Egwyl** (10.30-10.40)

## 3 Craffu blynyddol ar Drafnidiaeth Cymru

(10.40-11.30)

James Price, Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru

Geoff Ogden, Prif Swyddog Cynllunio Trafnidiaeth a Datblygu, Trafnidiaeth Cymru

Jan Chaudry-Van Der Velde, Prif Swyddog Gweithrediadau, Trafnidiaeth Cymru

## 4 Papurau i'w nodi (11.40)

### 4.1 Cyllideb Ddrafft 2024-25

(Tudalennau 38 - 40)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Cadeirydd mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft 2024-25

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw.

(11.30)

## Cyfarfod preifat (11.30-12.00)

## 6 Ystyried y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2 ac eitem 3

## 7 Bil Seilwaith (Cymru) - Trafod Adroddiad Drafft Cyfnod 1 y Pwyllgor

(Tudalennau 41 - 93)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad drafft - Bil Seilwaith (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1 (Saesneg yn unig)

## 8 Craffu cyffredinol ar y Gweinidog Newid Hinsawdd - Ystyried y llythyr drafft

(Tudalennau 94 - 99)

**Dogfennau atodol:**

Craffu cyffredinol ar y Gweinidog Newid Hinsawdd - Ystyried y llythyr drafft (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

9 Tachwedd 2023

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Yn unol â chais y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, rwy'n ysgrifennu atoch gyda rhagor o wybodaeth am y pynciau penodol y gofynnwyd amdanynt ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad TrC.

Fis diwethaf, roedd yn bum mlynedd ers i Trafnidiaeth Cymru ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros wasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'i gororau. Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi gorfod esblygu'n barhaus a bod yn hyblyg yn ein dull gweithredu wrth i'n cylch gwaith ehangu. Heddiw, rydym yn sefydliad gwahanol i'r un roeddem bum mlynedd yn ôl ac, o'r herwydd, rydym yn gweithio o fodel busnes gwahanol iawn.

Bum mlynedd yn ôl, roedd rhwydwaith Cymru a'r Gororau yn cael ei reoli gan Keolis Amey, ein partner cyflawni gweithrediadau a seilwaith. Yn anffodus, ddwy flynedd i mewn i'r contract, gwnaeth Trafnidiaeth Cymru wynebu heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen, gan gynnwys pandemig byd-eang, y rhyfel yn Wcráin a effeithiodd yn sylweddol ar ein cadwyn gyflenwi, yr argyfwng costau byw diweddar a chyfraddau chwyddiant uwch; pob un wrth geisio uwchraddio rhwydwaith rheilffyrdd o oes Fictoria a darparu fflyd newydd sbon o drenau. Er ei bod yn bwysig cydnabod y ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth a effeithiodd yn sylweddol ar ein gallu i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed cyn Covid, mae Bwrdd Trafnidiaeth Cymru, yr Uwch Dîm Arwain a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd yn parhau'n ymroddedig ac yn atebol, yn cydnabod yr angen i gyflawni, ac nid yw'n rhestru'r ffactorau hyn i wneud esgusodion ar gyfer cyfnod o heriau gweithredol.

Mae cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru wedi tyfu'n sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf ac rydym bellach yn sefydliad trafnidiaeth aml-ddull sydd â'r her o greu rhwydwaith trafnidiaeth cynaliadwy cwbl integredig. Rydym yn gweithio i ganfod ffyrdd y gellir gwella gwahanol ddulliau a sut y gellir integreiddio'r rhain i sicrhau mai trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy yw'r dewis amlwg i bobl Cymru.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Ers cyhoeddi'r Papur Gwyn Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn, mae Trafnidiaeth Cymru wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a gweithredwyr i ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer masnachfreinio bysiau yn y dyfodol. Mae Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu dogfen ar y cyd a fydd yn nodi ein dull gweithredu arfaethedig ar gyfer masnachfreinio bysiau. Mae'r ddogfen hon yn dal i gael ei thrafod yn helaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ddechrau 2024.

Rydym yn gweithio'n frwd gyda llywodraeth leol i'w cefnogi gyda'r heriau cyllido presennol yn ogystal ag edrych i'r dyfodol, gyda rôl weithredol, yn datblygu cynlluniau ar gyfer y rhwydweithiau masnachfraint rhanbarthol.

Yn y dyfodol, bydd Trafnidiaeth Cymru yn arwain y gwaith o gaffael gwasanaethau bysiau lleol, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu rhwydwaith clir, cyson ac wedi'i gynllunio, sy'n canolbwyntio ar y teithiwr.  Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i alluogi integreiddio dulliau a phrosesau aml-ddull drwy amserlenni sydd wedi'u cynllunio'n dda a thocynnau syml a fforddiadwy – sy'n ddilys ar draws gweithredwyr a dulliau teithio.  Bydd parhau i weithio mewn partneriaeth yn galluogi hynny i ddigwydd ar draws y rhanbarthau mewn ffordd ddidrafferth sydd wedi'i chynllunio'n dda.

Rydym wedi gweithio ar y cyd â Chonffederasiwn Cludiant Teithwyr a Chymdeithas Bysiau Cymru ar ymgyrch sy'n delio â chwsmeriaid i annog pobl i ddefnyddio bysiau yng Nghymru.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o dan arweinyddiaeth strategol Bwrdd TrC, gwnaethom sefydlu ein model gweithredu newydd, sy'n ein galluogi i fod yn strwythuredig a symlach ar gyfer y dyfodol. Mae gweithio fel un tîm, gydag un set o amcanion, yn cynnig mwy o gyfleoedd i gydweithio a thrawsnewid trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru mewn ffordd wirioneddol aml-ddull.

Mae llawer i'w wneud o hyd i greu system drafnidiaeth wirioneddol aml-ddull i Gymru sydd ag un rhwydwaith, un amserlen ac un tocyn; i sbarduno newid dulliau teithio oddi wrth ddefnyddio ceir preifat tra hefyd yn lleihau, lle bynnag y bo modd, y galw am gymorthdaliadau. Ni fydd hyn yn digwydd dros nos, ond rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu system trafnidiaeth gyhoeddus effeithlon lle mae unrhyw arian dros ben yn cael ei ail-fuddsoddi ynddi, gan arwain at gylch hunangynhaliol o welliant parhaus er budd y rheini sy'n ei ddefnyddio.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru, gan ganolbwyntio ar uchelgeisiau ugain mlynedd a blaenoriaethau pum mlynedd. Mae Llwybr Newydd yn nodi ffordd gwirioneddol newydd o feddwl sy'n rhoi pobl a'r newid yn yr hinsawdd wrth flaen ac wrth galon ein system drafnidiaeth. Mae'r argyfwng hinsawdd yn cael sylw ar raddfa fyd-eang ac mae gan Trafnidiaeth Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni agenda datgarboneiddio Llywodraeth Cymru. Welsh
Mae'r Llywodraeth wedi gosod targed sero net ar gyfer 2050 a'r targed ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru yw bod yn sero net ar y cyd erbyn 2030.

Er mwyn helpu i gyrraedd y targedau uchelgeisiol hyn, mae angen inni newid y ffordd y mae pobl yn teithio ledled Cymru a sbarduno newid mewn dulliau teithio oddi wrth geir preifat a thuag at drafnidiaeth gyhoeddus a Theithio Llesol. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ni sicrhau mai trafnidiaeth gynaliadwy yw'r opsiwn hawsaf, mwyaf deniadol a rheolaidd i bobl Cymru. Mae llawer o'n gwaith yn canolbwyntio ar greu'r cynnyrch a'r gwasanaethau iawn ar gyfer y dyfodol a chynyddu parodrwydd a gallu pobl i'w defnyddio.

Ein cyflawniad mwyaf arwyddocaol hyd yma yw ein buddsoddiad gwerth £800 miliwn mewn trenau newydd sbon, a bydd yr effaith yn cael ei gweld ar hyd a lled Cymru, er budd ein holl gwsmeriaid. Roedd darparu fflyd newydd yn addewid a wnaed i'n cwsmeriaid o'r diwrnod cyntaf, a nawr mae'n digwydd, gyda threnau newydd yn dechrau gwasanaethu drwy gydol 2023.

Pan ysgwyddodd Trafnidiaeth Cymru y cyfrifoldeb dros redeg y rheilffordd, roedd llawer o'r trenau roeddem wedi'u hetifeddu yn hen ac yn anhygyrch. Roedd gwastraff yn cael ei ollwng ar y traciau ac roedd dŵr yn gollwng ar y teithwyr y tu mewn i'r cerbydau. Erbyn i'r trenau hyn ddod i'n perchnogaeth, roeddent eisoes wedi bod mewn gwasanaeth yn llawer hirach na'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol. O ganlyniad, Cymru oedd â'r fflyd hynaf yn y DU. Ers i Trafnidiaeth Cymru ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y rheilffyrdd yn 2018, mae pob trên yn ein fflyd naill ai wedi cael ei uwchraddio (i sicrhau enillion cyflym i deithwyr yn y tymor byr) neu wedi cael ei ddisodli'n llwyr.

Er bod Covid a phroblemau gyda'r gadwyn gyflenwi wedi arafu'r darparu gan ein gweithgynhyrchwyr trenau, gwnaethom barhau i weithio gyda Stadler a CAF i gyflwyno ein trenau newydd sbon ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Ar gyfartaledd, rydym yn derbyn un uned newydd bob deuddeg diwrnod ac rydym bellach yn gwthio i gynyddu cyfradd y ddarpariaeth i un uned bob saith diwrnod – mae hyn o'i gymharu â chyfradd gyflenwi o un uned y mis cyn toriad yr haf. Bellach mae gennym bedwar deg tri o unedau newydd, gyda dros gant i fynd. O safbwynt amserlen, rydym hefyd wedi cynyddu nifer y gwasanaethau rheilffyrdd ar ein rhwydwaith 20% ers 2018, ac rydym yn un o'r ychydig weithredwyr yn y DU sydd wedi adfer amlder ein hamserlen cyn covid.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Bydd ein trenau newydd yn hanfodol i wella ein rhwydwaith. Mae pobl wedi dechrau cael gwell seddi, systemau aerdymheru modern a sgriniau gwybodaeth i deithwyr gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am deithio fel yr addawyd.

Rydym eisoes wedi buddsoddi £33 miliwn yn ein gorsafoedd, sy'n cyfateb i gyfanswm buddsoddiad y gweithredwyr blaenorol dros 15 mlynedd eu masnachfraint.

Prosiect pwysig arall yw'r ffordd rydym yn cyflawni Metro De Cymru. Ers dod yn berchen ar Linellau Craidd y Cymoedd ym mis Mawrth 2020, rydym wedi dechrau ar brosiect seilwaith cymhleth i drydaneiddio'r rhwydwaith; gan uwchraddio rheilffordd sy'n dyddio'n ôl i oes Fictoria.

Mae'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud hyd yma yn arwydd o gyflawniad sylweddol arall ers sefydlu Trafnidiaeth Cymru bum mlynedd yn ôl. Hyd yma rydym wedi trydaneiddio 60 km o gledrau (gan gynnwys rhannau o Aberdâr i Bontypridd ac o Ferthyr Tudful i Abercynon), gyda 110km arall i fynd; ac mae ein trenau tram newydd sbon, cerbydau rheilffordd ysgafn cyntaf Cymru, nawr yn cael eu profi ar lwybrau'r Metro.

Mae ein depo gwerth £100 miliwn yn Ffynnon Taf – cartref Metro De Cymru, sydd hefyd yn cynnwys ein Canolfan Reoli Integredig newydd – bellach yn signalau ac yn rheoli trenau ar hyd a lled rheilffyrdd y cymoedd.

Ym mis Mawrth eleni, fe wnaethom gyflwyno ein trenau Metro cyntaf i reilffordd Cwm Rhymni. Mae ein trenau Class 231, Fast Light Intercity and Regional Trains (FLIRTs) eisoes yn gwella profiad y cwsmer.

Mae hefyd yn werth sôn, drwy waith caled a thrafodaethau parchus drwy ein model Partneriaeth Gymdeithasol gyda chydweithwyr yn yr Undebau Llafur, mai ni oedd un o'r unig gwmnïau trên yn y DU nad oedd yn rhan o anghydfod rheilffyrdd y DU. Mae hyn yn dyst i'n perthynas sy'n seiliedig ar barch, dealltwriaeth a chydweithio er lles cydweithwyr a theithwyr.

Drwy'r Bartneriaeth Gymdeithasol rydym hefyd wedi dod i gytundeb gyda'n cydweithwyr yn yr Undebau Llafur i wneud dydd Sul yn rhan o'r wythnos waith ar gyfer gyrwyr. Bydd y trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith o haf 2024 ymlaen.

Er ei bod yn gallu bod yn anodd gweld cynnydd ar brydiau, rydym wedi cymryd camau breision i'r cyfeiriad iawn o ran rhoi'r sylfeini i Gymru ar gyfer y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus y mae'n ei haeddu.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Er ein bod yn gwbl ymwybodol o'r heriau rydym wedi'u hwynebu, rwy'n gwybod fel gweithiwr, ond yn bwysicaf oll, fel teithiwr, yr anawsterau y bu'n rhaid i'n cwsmeriaid eu dioddef. Rydym eisiau i'n teithwyr fod yn falch o'u rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus, ac rwy'n credu'n llwyr y bydd hyn yn dod. Rydym wedi cael amser anodd, ond mae goleuni ym mhen draw'r twnnel a bydd gwelliannau ffisegol gwirioneddol y gall pobl eu gweld a'u profi, fel ein trenau newydd, gwasanaethau, gorsafoedd newydd, mwy o beiriannau gwerthu tocynnau a sgriniau arddangos gwell i gwsmeriaid, yn cael eu teimlo fwyfwy ledled Cymru.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn rhai cwestiynau penodol ac rwy'n gobeithio fy mod wedi ateb yn llawn gyda'r isod;

**<u>Ymchwiliad i'r rheilffyrdd:</u>**

**Cyflawni'r fasnachfraint rheilffyrdd a'r metro;**

**Metro De Cymru/Llinellau Craidd y Cymoedd**

Mae'r gwaith parhaus i drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yn mynd rhagddo'n gyflym. Mae TrC wedi trydaneiddio 60 km o gledrau, gyda 110km arall i fynd. Mae rheilffyrdd Aberdâr, Merthyr a Phontypridd<>Caerdydd wedi'u trydaneiddio erbyn hyn, a bydd trydaneiddio rheilffordd Treherbert yn cael ei gwblhau yn y flwyddyn newydd.

Bydd trydaneiddio rheilffordd Rhymni i'r De o Gaerffili, Coryton a Bae Caerdydd yn dilyn – gyda gwaith sylweddol eisoes yn cael ei wneud. Mae TrC hefyd yn gwneud gwaith uwchraddio sylweddol mewn chwe gorsaf ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd (sef Mynwent y Crynwyr, Aberdâr, Fernhill, Caerffili a Dinas Rhondda) i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer cerbydau newydd y Metro, ac mae adeiladau staff newydd hefyd yn cael eu hadeiladu yn Rhymni a Threherbert. Mae pontydd 'Mynediad i Bawb' yn cael eu gosod yn Nhrefforest, Ffynnon Taf, Cathays, Dinas Rhondda, Ynyswen a Chaerffili.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran adeiladu depo a chyfleuster cynnal a chadw gwerth £100 miliwn yn Ffynnon Taf, a fydd yn gartref i'r fflyd newydd o 36 o drenau tram. Bydd 150 aelod o griw'r trên yn gweithio yn y depo, ochr yn ochr â 35 aelod arall o staff cynnal a chadw. Mae'r Ganolfan Reoli Integredig yn y depo wedi bod yn weithredol ers gwanwyn 2023, yn rheoli'r seilwaith rhwng Radur ac Aberdâr a Merthyr Tudful. Mae 52 aelod o staff yn gweithio yn y ganolfan reoli fodern hon, a fydd yn gweithredu'r holl wasanaethau ar hyd Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae'n gyfrifol am y seilwaith newydd sydd wedi'i drydaneiddio a'r offer signalu sydd wedi'i uwchraddio.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Byddwn yn gwneud gwelliannau i Orsaf Bae Caerdydd gyda gwelliannau i'r platfform a mynedfa ddeheuol newydd. Byddwn hefyd yn adeiladu gorsaf newydd yn Butetown a fydd yn cynnwys dau blatfform newydd gyda mynediad drwy risiau a lifftiau. Byddwn hefyd yn ailddyblu'r cledrau o'r orsaf newydd hon i Fae Caerdydd, i gynyddu nifer y gwasanaethau ar lein y Bae i 6 trên yr awr yn uniongyrchol i'r bae o linellau'r cymoedd.

**Bae Abertawe a Gorllewin Cymru**

Mae gan dde-orllewin Cymru boblogaeth breswyl o tua 700,000 o bobl (tua 22% o boblogaeth Cymru); mae tua 450,000 o'r nifer hwn yn byw yn ardal Bae Abertawe. Mae'r rhanbarth ehangach yn cynnwys pedwar awdurdod lleol.

Er mwyn darparu system drafnidiaeth integredig sydd o fudd i bobl ar draws y rhanbarth, mae'r cynigion datblygu ym Mae Abertawe a Gorllewin Cymru yn cynnwys:

- Teithiau trên cyflymach i Abertawe, Caerfyrddin ac Aberdaugleddau; gwella cyflymder y llinellau ac edrych ar wahanol opsiynau o ran llwybrau
- Gwasanaethau trên amlach ar draws y rhwydwaith
- Cyflwyno gwasanaethau a llinellau newydd yn Ardal Bae Abertawe; darparu mwy o gysylltedd a chyfleoedd newydd ar gyfer teithio ar y rheilffyrdd
- Gweithio gyda llywodraeth leol a gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus i wella cyflymder a dibynadwyedd teithiau bws; gwella cyfleusterau aros i deithwyr, lonydd bysiau a chyflwyno signalau traffig deallus er mwyn helpu i leihau amseroedd teithio
- Treialu'r defnydd o fysiau hydrogen ym Mae Abertawe a Sir Benfro; lleihau'r effaith ar yr amgylchedd gyda dull mwy cynaliadwy o ymdrin â thrafnidiaeth gyhoeddus

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) wedi datblygu astudiaethau Cam 1 a 2 WelTAG i nodi'r prif heriau a chyfleoedd i wella trafnidiaeth gyhoeddus yn y rhanbarth ac wrth gysylltu â'r rhanbarth. Roedd yr astudiaeth ddiweddaraf yn ystyried tua deg ar hugain o opsiynau o wahanol raddau, ac roedd y rhain yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mawrth 2021.

Cafodd yr ymgynghoriad nifer sylweddol uchel o ymatebion a sylwadau; ac roedd yr adborth yn gadarnhaol dros ben. Cyhoeddodd TrC ei adroddiad Cam 2 WelTAG ym mis Medi 2021 ac mae bellach yn datblygu'r opsiynau hynny sydd wedi dangos yr achos busnes cryfaf.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Mae rhaglen Bae Abertawe a Gorllewin Cymru yn canolbwyntio ar set allweddol o bethau i'w cyflawni, sy'n cael ei grynhoi isod:

**a)** Ardal Bae Abertawe: Gwelliannau i'r rheilffyrdd, gan gynnwys cyfarpar llinellau uwchben, i fod o fudd penodol i ardal Bae Abertawe; gan dargedu ei phoblogaethau dwys.
**i)** CAM 1 – Pontarddulais i Abertawe; drwy Gastell-nedd: gan ddefnyddio Lein Ardal Abertawe i gyflwyno hyd at 4tph (trenau yr awr) a hyd at bum gorsaf newydd er budd cysylltedd rheilffyrdd, i gysylltu'r maestrefi gogleddol sy'n tyfu ac i dynnu traffig ffordd o goridor yr M4 gerllaw.
**ii)** CAM 1 – Pen-bre a Phorth Tywyn i Abertawe: cyflwyno hyd at 4tph ychwanegol i Brif Reilffordd De Cymru, gyda gorsaf newydd yn y Cocyd
**iii)** CAM 2 – Cysylltiadau trenau tram o Abertawe i Aberdulais a/neu Clydach: Bydd y cynigion tymor hwy hyn yn dod â chysylltedd rheilffordd 4tph i Ganol Dinas Abertawe a Choridor Ffordd Fabian, sy'n prysur ddatblygu.

**b)** Amlder Rheilffyrdd Gorllewin Cymru: Mae TrC wedi archwilio sawl opsiwn ar gyfer cyflwyno gwasanaethau rheilffordd ychwanegol a chyflymach i orllewin Cymru (h.y. i'r gorllewin o Abertawe). Byddai'r rhaglen hon yn gweithredu gwasanaethau ychwanegol bob awr o Abertawe i Ddoc Penfro; gan ategu ymrwymiadau ychwanegol i Reilffordd Calon Cymru, Abergwaun (drwy ymrwymiadau masnachfraint) ac Aberdaugleddau (drwy raglen Prif Linell De Cymru).

**c)** Gwelliannau i'r Gyfnewidfa: Pedwar gwelliant gwahanol i orsafoedd sy'n targedu'r gyfnewidfa a phrofiad y teithwyr yn Hendy-gwyn ar Daf, Caerfyrddin, Pen-bre a Phorth Tywyn a Llanelli.

**Astudiaeth Arloesi Coridor Gorllewin Cymru**

Rydym wedi arwain asesiad eang i archwilio sut y gellir gwella hygyrchedd a chysylltedd ar arfordir gorllewinol Cymru; yn bennaf, archwilio coridorau sy'n rhedeg rhwng Bangor, Aberystwyth ac Abertawe. Mae cyfres o aliniadau rheilffyrdd amgen, cerbydau (trenau ysgafn a thrwm) a chynigion gwasanaeth bysiau strategol wedi cael eu harchwilio.

Mae'r astudiaeth wedi argymell bod cynigion tymor byr i ganolig ar gyfer gwasanaethau bysiau arhosiad cyfyngedig yn cael eu datblygu gan y gellid darparu'r rhain o fewn 3 blynedd gyda'r nod o sicrhau amser teithio o tua 5 awr (yn cynnwys cyfnewid), gan ategu'r gwasanaethau T1/2 presennol a darparu gwell gwahaniaeth rhwng teithio lleol a rhanbarthol/pell.

TRAFNIDIAETH CYMRU TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Roedd opsiynau rheilffyrdd, er eu bod yn cynnig amseroedd teithio byrrach, yn gostus iawn i'w datblygu a'u gweithredu (mae cynllun rheilffordd ysgafn G-D yn debygol o gostio tua £2Bn) a byddai'n cymryd dros 10 mlynedd i'w gyflawni. Felly, mae'r rhain i gyd yn anodd eu gwireddu, hyd yn oed fel cynllun rheilffordd ysgafn. Roedd yr achos dros Fangor – Caernarfon/Afon Wen yn gryfach oherwydd bod hyd y llwybr yn fyrrach a'r galw uwch. Argymhellwyd cymryd camau pellach i ddiogelu'r llwybr blaenorol rhag datblygiad pellach lle bo hynny'n ymarferol.

**Datgarboneiddio Bysiau a Chynllunio Rhwydwaith**

**a)** Datgarboneiddio: Lansiodd TrC wasanaethau trydan T1 TrawsCymru o Gaerfyrddin i Aberystwyth ym mis Mawrth 2023. Mae'r gwelliant hwn yn gam pwysig tuag at ddatgarboneiddio fflyd bysiau Cymru. Mae TrC bellach yn gweithio ar brosiectau braenaru bysiau hydrogen uchelgeisiol ar gyfer Bae Abertawe, y disgwylir y byddant yn cael eu lansio yn ystod y tair blynedd nesaf, gyda Sir Benfro i ddilyn yn fuan ar ôl hynny.

**b)** Cynllunio'r Rhwydwaith Bysiau: Mae TrC yn paratoi a chynllunio rhwydwaith, modelu a data bysiau ar gyfer De-orllewin Cymru. Cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol gyda rheolwyr trafnidiaeth gyhoeddus ym mhob un o'r awdurdodau lleol i sicrhau bod cydweithio a phartneriaeth yn ganolog i ddiwygio ac ailgynllunio'r ddarpariaeth bysiau yn ne-orllewin Cymru dros y blynyddoedd i ddod.

Mae TrC yn llunio rhaglen i'w chyflawni dros y degawd nesaf. Mae TrC yn awyddus i weithio mewn partneriaeth agos â llywodraeth leol er mwyn cydweithio i gyflawni'r prosiectau trawsnewidiol hyn er budd de-orllewin Cymru.

**Metro Gogledd Cymru**

Nod rhaglen Metro Gogledd Cymru yw darparu system drafnidiaeth gyhoeddus integredig ar ei newydd wedd. Mae'r rhaglen yn edrych ar yr hyn y mae angen i ni ei adeiladu ar gyfer y dyfodol, gan ystyried pob dull teithio gyda tharged allweddol ar gyfer newid dulliau teithio i ddenu cwsmeriaid i'r system drafnidiaeth gyhoeddus, a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a thargedau sero net.

Rydyn ni'n bwrw ymlaen â'r gwaith datblygu cynnar, y cynllunio a'r achosion busnes ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau trafnidiaeth integredig ar ran Llywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o naill ai eu cyflawni drwy Trafnidiaeth Cymru (TrC) a/neu bartneriaid Awdurdodau Lleol a sicrhau cyllid ehangach yn y DU ar gyfer eu rhoi ar waith.

Ein nod yw trawsnewid gwasanaethau rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol ar draws Cymru. Rydyn ni am ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach teithio ledled gogledd Cymru, a chreu cysylltiadau gwell â gogledd-orllewin Lloegr. Bydd hyn yn helpu i greu mwy o gyfleoedd i'n cymunedau a chefnogi mewnfuddsoddi yn yr ardal.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Mae TrC yn gweithio gyda'r llywodraeth a phartneriaid yn y diwydiant gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yr Adran Drafnidiaeth, Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, Awdurdodau Lleol Cyfun ac Unigol yng ngogledd-orllewin Lloegr, Network Rail, Gweithredwyr Trenau a Bysiau a Grwpiau Busnes i gefnogi datblygu'r prosiectau hyn.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Chomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru yn cynghori ac yn argymell atebion ar gyfer system drafnidiaeth well yng ngogledd Cymru. Mae cylch gwaith y Comisiwn yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'n cael ei gefnogi gan Ysgrifenyddiaeth Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Comisiwn yn defnyddio ffordd sy'n cwmpasu sawl dull teithio, gan edrych ar ogledd Cymru i gyd i ystyried sut y gellir llwyddo i newid dulliau teithio mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae'r Comisiwn yn ystyried ymyriadau yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir er mwyn newid i ddulliau mwy cynaliadwy o deithio a chludo nwyddau. Y nod yw y bydd y gwelliannau hyn yn cynnig dewisiadau ymarferol yn lle ceir preifat drwy system drafnidiaeth sy'n gwneud bywyd yn well i bawb yn y rhanbarth – mewn ardaloedd trefol a gwledig – ac sy'n cefnogi taith y rhanbarth tuag at sero net.

Mae daearyddiaeth Gogledd Cymru wedi dylanwadu ar deithio yn y rhanbarth. Ceir cymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig, gan gynnwys ardaloedd mynyddig iawn, yn enwedig ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae ymchwil yn dangos bod y boblogaeth wedi'i chrynhoi yn ardaloedd arfordirol y gogledd-ddwyrain a'r gogledd, lle mae'r rhan fwyaf o siwrneiau ceir yn rhai byr o fewn yr un ardal neu ardal gyfagos. Dyna pam rydym yn gweithio gyda Chomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'n partneriaid i wella trafnidiaeth gyhoeddus a dewisiadau teithio llesol er mwyn i ni allu annog dewisiadau teithio cynaliadwy ac amgen.

Mae TrC yn gweithio'n agos gyda chyllidwyr (Yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru) a phartneriaid allweddol (Network Rail, Awdurdodau Cyfun a Lleol, Rheilffyrdd TrC, Avanti West Coast, Merseyrail, a busnesau lleol) i ddatblygu prosiectau seilwaith rheilffyrdd a fydd yn gwella cysylltedd, capasiti, cyflymder a diogelwch rhwydweithiau rheilffyrdd ar hyd arfordir gogledd Cymru a'r Gororau (Wrecsam i Lerpwl).

Bydd y prosiectau hyn yn galluogi gwasanaethau trên amlach, cyflymach a mwy hygyrch ar y llwybrau hyn, ac yn darparu gwell mynediad at addysg, cyflogaeth a gwasanaethau, gwella allbwn economaidd lleol a rhanbarthol, cyfrannu at ddatgarboneiddio, galluogi datblygu cynaliadwy ac adfywio, a gwella capasiti gweithredol, cadernid ac effeithlonrwydd y rhwydwaith rheilffyrdd.

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Bydd gwelliannau i reilffordd y Gororau yn darparu; cysylltiad uniongyrchol i Lerpwl o Wrecsam, datgarboneiddio fflyd (batri), gweledigaeth 4tph, amser teithio cyflymach, seidins sment Padeswood, gorsaf newydd Glannau Dyfrdwy a gwelliannau i gyfnewidfa Shotton.

Mae cais Cysylltedd yr Undeb wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth y DU sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd a fyddai'n darparu £2.1 miliwn ar gyfer gwaith datblygu i alluogi cyflwyno trenau batri Class 777 ar Lein y Gororau a chysylltedd uniongyrchol i ddolen Lerpwl. Cyflwynwyd y cais hwn ar y cyd â Dinas-Ranbarth Lerpwl gyda llythyrau ategol gan Ddirprwy Weinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru a Maer Lerpwl.

Mae datgloi problemau capasiti yng ngorsaf Caer yn allweddol i alluogi mwy o drenau i basio drwodd. Mae datblygu achos busnes capasiti Caer yn cael ei ariannu ar hyn o bryd drwy gyllid Cysylltedd yr Undeb ac mae'n cael ei ddatblygu ar y cyd ag achos busnes Cam Un ar gyfer rhagor o wasanaethau.

O ystyried topograffi gogledd Cymru ac yr echel reilffordd glir iawn o'r gogledd i'r de ac o'r dwyrain i'r gorllewin, bysiau sy'n darparu'r cysylltedd ehangach a'r drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael i lawer o gymunedau yng ngogledd Cymru. Mae TrC yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau dibynadwy ac integredig o ansawdd uchel sydd â chysylltiadau da, a fydd yn cynnig mynediad i fwy fyth o breswylwyr at drafnidiaeth gyhoeddus ac yn annog twristiaeth gynaliadwy i'r ardal.

Mae TrC, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a gweithredwyr bysiau, wedi cynhyrchu rhwydwaith bysiau diwygiedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth a data ar gyfer gogledd Cymru a fydd yn cynnig rhwydwaith syml, cysylltiedig, cydlynol a dibynadwy ar gyfer gogledd Cymru. Mae hyn yn segmentu'r cynnig bysiau gyda llwybrau craidd 'Metro' rheolaidd, gwasanaethau Traws pellter hir, gwasanaethau rhanbarthol, gwasanaethau bysiau lleol a gwasanaethau Fflecsi sy'n ymateb i'r galw.

Er mwyn darparu cysylltedd ehangach ar draws gogledd Cymru, mae dau wasanaeth Traws allweddol yn cael eu treialu:

- T10 – Bangor i Gorwen
- T8 – Corwen – Yr Wyddgrug – Caer

Mae'r rhain yn darparu cysylltedd newydd i gymunedau sydd fel arall heb ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus ac yn cysylltu â'r rhwydweithiau rheilffyrdd a theithio llesol. Wrth i ni symud tuag at fasnachfreinio, bydd cyflwyno mwy o'r cynlluniau peilot rhwydweithiau bysiau yn cefnogi twf mewn nawddogaeth a bydd yn galluogi'r newid i well darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Mae Gwynedd, Conwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, gyda chefnogaeth TrC, wedi cyflwyno rhwydwaith Sherpa diwygiedig i fynd i'r afael â thagfeydd a phroblemau parcio drwy wella gwasanaethau bysiau. Gan symleiddio'r rhwydwaith ar yr un pryd â chyflwyno gwasanaethau mwy cyson gydag oriau gweithredu hirach, mae'r Sherpa wedi lleihau un ar ddeg o lwybrau i bump, tri gweithredwr i un ac wedi ail-frandio'r rhwydwaith.

Mae'r camau gweithredu ers haf 2021 wedi sicrhau twf o 30% mewn nawddogaeth a 38% o dwf refeniw ar amserlenni cyn covid, sy'n mynd yn groes i'r duedd yn y DU o ran adfer gwasanaethau bysiau ar ôl covid.

**<u>Blaenoriaethau seilwaith rheilffyrdd – Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru</u>**

Mae Bwrdd Rheilffyrdd Cymru (Yr Adran Drafnidiaeth, WO, Llywodraeth Cymru, Network Rail, TrC) yn datblygu rhestr wedi'i blaenoriaethu o ofynion buddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd ar gyfer Cymru dros gyfnod o 5 – 15/20 mlynedd, wedi'i rhannu'n dair ffrwd flaenoriaeth. Pwrpas hyn yw darparu ffocws ar gynlluniau y gellir eu cyflawni a dod â newid i ddulliau teithio, datgarboneiddio a manteision cysylltedd i Gymru a'r Gororau. Bydd y Bwrdd hefyd yn myfyrio ar gyhoeddiad diweddar 'Rhwydwaith Gogledd Lloegr' gan lywodraeth y DU ar ôl i ran o HS2 gael ei chanslo.

**Prif Linell De Cymru**

Mae rhaglen strategol yn canolbwyntio ar Brif Reilffordd De Cymru o Aberdaugleddau i Dwnnel Hafren. Yn ogystal â datblygu Achos Amlinellol Strategol y Rhaglen ar gyfer buddsoddiad y llwybr cyfan, mae hyn yn cynnwys cynigion ar gyfer gwasanaethau uniongyrchol o orllewin Cymru i Temple Meads Bryste, a gwasanaethau strategol eraill, trydaneiddio'r brif reilffordd i ddechrau o Gaerdydd ac Abertawe (ac wedyn tua'r gorllewin, gan ymgorffori anghenion cynigion y Metro) a gwelliannau o ran amser a chapasiti'r brif reilffordd.

Mae'r rhaglen hefyd yn arwain ar gapasiti llwybrau'n gyffredinol. Mae amserlennu strategol wedi cael ei wneud sy'n edrych ar gydweddiad y cynigion rhanbarthol yn ne Cymru a Bae Abertawe a gorllewin Cymru gyda dyheadau o ran prif wasanaethau'r rheilffordd i ganfod unrhyw wrthdaro a chyfleoedd, gan gynnwys gofynion seilwaith.

**Comisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru**

Rydym yn datblygu cynigion ar gyfer pum gorsaf reilffordd newydd rhwng Caerdydd Canolog a Chyffordd Twnnel Hafren, yn ogystal â gwasanaethau trawsffiniol newydd, i newid y ffordd mae pobl yn teithio ar draws un o goridorau trafnidiaeth prysuraf Cymru.

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Os byddant yn cael eu hariannu, bydd gorsafoedd newydd yn Nwyrain Caerdydd (Newport Road), Gorllewin Casnewydd, Somerton, Llan-wern, a Magwyr a Gwndy yn darparu gwell mynediad at y rheilffordd i gymunedau yn ne Cymru.

Bydd y gorsafoedd newydd yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau presennol a newydd rhwng Caerdydd a Cheltenham, a gwasanaethau newydd rhwng Caerdydd a Bryste. Bydd o leiaf ddau, a hyd at bedwar trên yr awr i bob cyfeiriad yn galw yn y gorsafoedd arfaethedig.

Gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i roi eu barn fel rhan o ymgynghoriad 13 wythnos a ddechreuodd ym mis Hydref.

**Perfformiad y rheilffyrdd**

Mae 2023 wedi bod yn gyfnod heriol i TrC yn weithredol. Bu'n rhaid tynnu ein trenau Class 175 yn ôl ar gyfer archwiliadau cynnal a chadw brys ym mis Mawrth a chafodd hyn effaith sylweddol ar wasanaethau, gan fod y Class 175 yn un rhan o bump o fflyd TrC ar y pryd. Roedd hyn hefyd yn golygu bod angen rhagor o waith cynnal a chadw a thrwsio ar y trenau Class 150/158 hŷn a oedd yn cael eu defnyddio i ddarparu cadernid, gan eu bod yn teithio dwbl eu milltiroedd arferol. Cafodd yr heriau gweithredol eithriadol hyn eu dwysáu ymhellach gan broblemau dibynadwyedd gyda'r Class 230 a'r Mk IV. O ganlyniad, gwelodd TrC gyfnod pan roedd mwy o wasanaethau'n cael eu tarfu, eu gohirio a'u canslo.

Ond, mae perfformiad yn gwella erbyn hyn. Mae TrC wedi ymrwymo'n gyhoeddus i gynllun gwella 5-pwynt ar gyfer y Class 230, tra bo gwasanaeth Mk IV llawn wedi ailddechrau ac mae'r Class 175 wedi cael eu hail-gyflwyno i'r rhwydwaith (er eu bod bellach wedi cael eu hymddeol fel y bwriadwyd yn dilyn cyflwyno rhagor o drenau Class 197). Mae perfformiad wedi gwella dros y cyfnodau rheilffordd diwethaf ochr yn ochr â TrC yn cyflawni ei dargedau Amser mae Teithwyr yn ei Golli* a gwasanaethau wedi'u canslo sydd i'w gweld yn y tabl isod:

| **Cyfnod y Rheilffordd 24/07 (17/09/23 – 14/10/23)** | | |
|---|---|---|
| | **Sgôr** | **Targed** |
| WCB PTL* | 69% | 68.6% |
| CVL PTL | 89.3% | 78.8% |
| Wedi Canslo | 4.3% | 4.4% |

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

| **Cyfnod y Rheilffordd 24/06 (20/08/23 – 16/09/2023** | | |
|---|---|---|
| | **Sgôr** | **Targed** |
| WCB PTL | 68.4% | 68.2% |
| CVL PTL | 89.3% | 82.1% |
| Wedi Canslo | 3.5% | 4.2% |

| **Cyfnod y Rheilffordd 24/05 (23/07/23 – 19/08/23)** | | |
|---|---|---|
| | **Sgôr** | **Targed** |
| WCB PTL* | 67.3% | 69.2% |
| CVL PTL | 88.7% | 81.1% |
| Wedi Canslo | 4.3% | 5.2% |

| **Cyfnod y Rheilffordd 24/04 (25/06/23 – 22/07/23)** | | |
|---|---|---|
| | **Sgôr** | **Targed** |
| WCB PTL* | 67.2% | 69.2% |
| CVL PTL | 87.8% | 79.0% |
| Wedi Canslo | 4.8% | 4.9% |

*(*PTL: Amser mae Teithwyr yn ei Golli. Mae'r metrig hwn yn cael ei ddefnyddio i fesur prydlondeb (o fewn tri munud) ym mhob gorsaf lle mae'r trên i fod i stopio, gan ystyried nifer y teithwyr sy'n cyrraedd pen eu taith.)*

Yn ddiweddar, rydym wedi tynnu'r fflyd Class 175 oddi ar y rhwydwaith yn unol â'r bwriad, er mwyn creu capasiti cadw hanfodol yn ei depos i dderbyn ein trenau newydd. Wrth i'r unedau Class 175 sy'n weddill gael eu tynnu'n ôl, bydd cyfradd darparu'r unedau Class 197, sy'n cael eu hadeiladu yn ffatri CAF yng Nghasnewydd, yn bwysig. Ar hyn o bryd mae CAF yn cyflenwi ar gyfradd o un uned bob 12 diwrnod, gyda chynllun i gynyddu'r gyfradd gyflenwi hon i un bob saith diwrnod.

Wrth i drenau Class 170 adael y fflyd a chael eu trosglwyddo i Reilffordd Dwyrain Canolbarth Lloegr yn unol â'r bwriad, ac wrth i amserlenni gynyddu (gwasanaethau amlach ar gangen Glynebwy, gwasanaethau amlach rhwng Caer a Lerpwl, adfer gwasanaethau rhwng Pontypridd a Threherbert ar ôl gwaith peirianyddol), bydd cyfnod byr pan fydd ein fflyd o dan bwysau pellach. Bydd y risg hon yn cael ei lliniaru wrth i fwy o drenau Class 197 gael eu darparu.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Craffu cyffredinol**

**Tryloywder – yn enwedig gwaith i wella prosesau'r gyllideb i gefnogi craffu**

Rydym yn deall bod tryloywder yn allweddol i ennyn ymddiriedaeth a hyder pobl Cymru, ac am y rheswm hwn, mae ein hagenda tryloywder yn sail i bopeth rydym yn ei wneud. Drwy ymrwymo i agenda tryloywder lawn a thrylwyr, ein nod yw dangos yn gyhoeddus yr uniondeb a'r arbenigedd sy'n sail i bob penderfyniad a chynllun sy'n cael eu gwneud.

Ym mis Tachwedd 2022, gwnaethom adnewyddu tudalennau tryloywder ein gwefan yn llwyr er mwyn gwella darpariaeth yr wybodaeth sydd yn yr adran hon. Mae'r adran bellach yn amlinellu'n glir ein trefniant fel grŵp o gwmnïau yn dilyn cyfnod sylweddol o newid sefydliadol, yn ogystal â'n perthynas â Llywodraeth Cymru, yr Adran Drafnidiaeth, Network Rail ac Amey.

Mae tudalennau bwrdd ein cwmni hefyd wedi cael eu gwella i amlinellu pwrpas pob bwrdd a phwyllgor bwrdd, a'r penderfyniadau y mae pob un yn gyfrifol amdanynt. Mae cofnodion Bwrdd TrC a Bwrdd Rheilffyrdd TrC yn cael eu cyhoeddi yn unol â'r gyfraith ac maent ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Mae'r wybodaeth sy'n ymwneud â hawliau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth hefyd wedi cael ei gwella'n sylweddol, i ddangos ein bod yn gweithredu'r broses bwysig hon o rannu gwybodaeth yn rhwydd fel conglfaen tryloywder cyhoeddus.

Dyma ddolenni defnyddiol i'r adrannau sydd wedi'u gwella a amlinellir uchod:
https://trc.cymru/amdanom-ni/tryloywder/pwy-ydyn-ni
https://trc.cymru/amdanom-ni/tryloywder/pwy-ydyn-ni/ein-strwythur-llywodraethu
https://trc.cymru/amdanom-ni/tryloywder/byrddau-ein-cwmni/bwrdd-trc

Mae adran tryloywder ein gwefan hefyd yn gartref i'n hadroddiadau perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol y rheilffyrdd (sy'n cael eu cyhoeddi ar gyfer pob cyfnod y rheilffordd, ar gael yma: https://trc.cymru/amdanom-ni/tryloywder/perfformiad/rheilffyrdd), gan adael i'r cyhoedd adolygu a chraffu ar ein perfformiad.

Yn ei thro, mae'r adran 'newyddion diweddaraf' yn darparu cyd-destun pwysig, gydag erthyglau'n cael eu cyhoeddi'n rheolaidd i dynnu sylw at heriau gweithredol, fel problemau gyda dibynadwyedd y fflyd yn effeithio ar y rhwydwaith ehangach neu wasanaethau'n cael eu canslo cyn stormydd mawr (ar gael yma: Newyddion Trafnidiaeth Cymru - Newyddion Diweddaraf (trc.cymru). Mae erthyglau o'r fath yn dangos ymhellach ein hymrwymiad i fod yn agored a thryloyw am yr heriau rydym yn eu hwynebu wrth redeg ein gwasanaethau.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Mae'r naratif hwn yn dod ynghyd yn ein hadroddiadau blynyddol, sydd ar gael yn adran 'cyhoeddiadau' y dudalen tryloywder (ar gael yma: Cyhoeddiadau | TrC ). Mae ein hadroddiadau blynyddol a'n datganiadau ariannol yn amlinellu llwyddiannau, cerrig milltir a heriau mwyaf y flwyddyn ariannol flaenorol, yn ogystal â dadansoddiad manwl o'n cyllid, gan adael i'r cyhoedd graffu ar yr arian rydym wedi'i wario ac ar beth.

O ran tryloywder ynglŷn ag adroddiadau ariannol; rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu adroddiadau ariannol sy'n cyd-fynd ag anghenion Llywodraeth Cymru. Golwg tymor hwy i Lywodraeth Cymru a TrC yw cynllunio ymhellach ymlaen, sydd wedi bod yn rhywbeth allweddol y gellir ei gyflawni ac yn 22/23, mae TrC wedi darparu darlun 5 mlynedd sy'n cael ei adnewyddu yn 23/24. Mae hyn yn hollbwysig i sicrhau bod y trafodaethau a'r cynlluniau tymor hwy yn cael eu modelu a'u deall ar gyfer penderfyniadau a blaenoriaethu hanfodol. Er enghraifft, ar gyfer pres pennu cyllideb 24/25, dyma'r amserlen y cytunwyd arni;

- Rydym wedi rhannu cyllideb ddrafft gychwynnol ym mis Gorffennaf 2023 – yn gynharach nag mewn blynyddoedd blaenorol
- Mae'r gyllideb hon yn cynnwys holl gostau TrC wedi'u mapio i linellau cyllido Llywodraeth Cymru (Llinellau Gwariant yn y Gyllideb) rydym wedi'u hintegreiddio i'n system ariannol eleni
- Rydym wedi cynnal trafodaethau manwl ar gydrannau'r gyllideb gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i adolygu a herio'r gyllideb ddrafft hon – ar lefel uchel gyda'r Cyfarwyddwr a thrafodaethau manylach â deiliaid cyllidebau perthnasol (e.e. rheilffyrdd, bysiau, teithio llesol, metro) ac ar feysydd penodol (costau staff, costau gorbenion)
- Bydd allbynnau'r sesiynau her hyn yn bwydo i ail gyllideb ddrafft a fydd yn cael ei darparu ym mis Rhagfyr, a ddylai fod bron yn derfynol, a hefyd yn cyd-fynd ag amserlen cynhyrchu'r cynllun busnes
- Bydd yr amserlen hon yn cael ei chadw ar gyfer pob blwyddyn gyllideb yn y dyfodol
- Gwnaethom hefyd rannu cynllun ariannol tymor canolig ar gyfer 5 mlynedd yn y dyfodol ym mis Ebrill 2023 – bydd hwn yn cael ei adnewyddu ochr yn ochr â thoriad 2 yn y gyllideb ar gyfer 2024/25 a phob blwyddyn gyllideb yn y dyfodol

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd yn darparu adroddiadau ariannol misol i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys:

- ail-ragweld gyda lefel debyg o fanylder i'r gyllideb (gan gynnwys yn ôl llinell ariannu) a gwybodaeth am amrywiadau
- nodi risgiau a chyfleoedd
- manylion unrhyw amrywiadau cyllido sydd wedi'u cytuno gyda deiliaid cyllidebau yn Llywodraeth Cymru
- diweddariadau penodol am brosiectau parhaus a meysydd ffocws (e.e. Prentisiaethau Modern, pensiynau, trethi, prydlesi cerbydau)

Mae'r data adrodd a rhagweld hwn yn cael ei drafod mewn nifer o fforymau (cyfarfod cyllid misol, bwrdd llywio, trafodaethau manwl gyda deiliaid cyllidebau). Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i wella'r broses adrodd hon, yn unol â gwybodaeth rhanddeiliaid.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda thimau adroddiadau ariannol Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o baratoi ac archwilio Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Llywodraeth Cymru, lle mae canlyniadau ariannol TrC yn cael eu cyfuno.

**Perfformiad o gymharu â dangosyddion perfformiad allweddol corfforaethol;**

Yn ystod chwarter olaf 22/23, fe wnaethom ddechrau ymarfer ymgysylltu ar draws y sefydliad i adnewyddu'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer TrC. Datblygwyd dangosyddion perfformiad allweddol aml-ddull, i gynnwys bysiau, teithio llesol a threnau yn unol â'n cylch gwaith sy'n datblygu. Datblygwyd ymhellach gerdyn sgorio cytbwys sy'n adlewyrchu Blaenoriaethau Corfforaethol TrC, fel y nodir yn Strategaeth Gorfforaethol TrC.

Mae rhai o'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn eisoes ar gael (e.e. perfformiad gwasanaethau rheilffyrdd), tra bo eraill yn cael eu treialu neu eu datblygu ar hyn o bryd. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, mae'r cerdyn sgorio cytbwys yn parhau i esblygu. Nid yw'r cerdyn sgorio ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd wrth i ni weithio i feincnodi'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn, ein bwriad yw cyhoeddi'r cerdyn sgorio o 2024/25 ymlaen. Fodd bynnag, er mwyn bod yn dryloyw, rydym wedi rhannu cerdyn sgorio enghreifftiol gyda'r data wedi'i ddileu.

Mae'r cerdyn sgorio yn cael ei gynhyrchu bob chwarter a'i gyflwyno i Fwrdd Perfformiad TrC/Llywodraeth Cymru, gyda chraffu a thrafod. Mae'r gwaith o gyflawni cerrig milltir y Cynllun Busnes ar gyfer 2023/24 hefyd yn cael ei graffu a'i drafod yn ystod y cyfarfod hwn, a sefydlwyd ar gyfer diwedd Ch1 2023/24.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**<u>Datblygu TrC – ei rôl a sut mae'n datblygu'r sgiliau a'r adnoddau i gyflawni'r rhain</u>**

Ym mis Awst 2023, nododd Llywodraeth Cymru yn ein llythyr cylch gwaith, y gofyniad ar gyfer TrC a nodwyd model gweithredu ategol yn ffurfiol. Amcan sefydliadol TrC yw i ni ddatblygu diwylliant aml-ddull a darparu rhwydwaith integredig drwy'r cynllun 5 pwynt a nodir yn y cylch gwaith:

- Manteisio i'r eithaf ar newid dulliau teithio;
- Darparu system drafnidiaeth gwbl integredig;
- Meithrin diwylliant aml-ddull yng Nghymru;
- Annog a chefnogi pobl i addasu ac ystyried trafnidiaeth gynaliadwy fel eu dewis diofyn; a
- Sicrhau gwell ymddygiad masnachol.

Bydd hyn yn gofyn am esblygiad parhaus yn niwylliant ein cwmni i roi datblygu rhwydwaith aml-ddull integredig ar flaen y broses gwneud penderfyniadau. Ar gyfer cydweithwyr ar draws y busnes, rydym yn darparu rhaglen i'r sefydliad cyfan i wneud yn siŵr bod hyn wedi'i wreiddio'n llawn.

- Rydym yn ehangu ein gwybodaeth am ddatgarboneiddio a masnachfreinio bysiau.
- Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu ein sgiliau Rheoli Prosiectau i gefnogi'r agenda aml-ddull a masnachfreinio bysiau
- Mae'r Timau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn datblygu eu sgiliau i gefnogi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig drwy recriwtio Cynllunwyr Trafnidiaeth

Bydd TrC yn defnyddio meddwl systemig aml-ddull ar gyfer gweithgareddau integreiddio, gyda nod y rhaglen yn darparu cydlyniad arbenigedd a 'meddwl arweiniol' ar gyfer ffrydiau gwaith ategol ac integredig yn hytrach na dyblygu ymdrechion.

**<u>Cyflawni cynnwys y cynlluniau busnes a chorfforaethol.</u>**

Cyhoeddwyd Cynllun Busnes 2023/24 ar 19 Mehefin 2023. Mae cyflawni cerrig milltir y Cynllun Busnes yn cael ei fonitro gan TrC yn barhaus, ac mae adroddiadau'n cael eu craffu a'u trafod ym Mwrdd Perfformiad chwarterol TrC/Llywodraeth Cymru.

Dechreuodd y broses Cynllunio Busnes ar gyfer 2024/25 ym mis Medi 2023, gyda chyfres o adolygiadau ar y cyd gan Lywodraeth Cymru/TrC ar gyfer pob ardal gyflawni. Mae'r broses cynllunio busnes yn sicrhau bod gweithgareddau arfaethedig yn cyd-fynd â'r canlynol:

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

- Fframwaith cynllunio busnes a Strategaeth Gorfforaethol TrC;
- Llythyr cylch gwaith Tymor y Llywodraeth TrC
- Llythyr cylch gwaith diwygiedig TrC;
- Llythyr cyllido diweddaraf TrC Rhaglen Lywodraethu;
- Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru;
- Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth;
- Cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol.

Bydd Cynllun Busnes drafft 2024/25 yn cael ei rannu â Llywodraeth Cymru yn Ch3 2023/24, i'w gymeradwyo'n derfynol a'i gyhoeddi yn Ch4 2023/24.

Wrth i ni nesáu at ddwy flynedd olaf Strategaeth Gorfforaethol TrC, byddwn hefyd yn adolygu ei hamcanion, i ganfod unrhyw fylchau posibl ac i bwyso a mesur newidiadau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru. Bydd gwaith hefyd yn dechrau i sbarduno'r gwaith o gyflawni Strategaeth Gorfforaethol nesaf TrC ym mis Ebrill 2024.

Mae cyflawni'r cerrig milltir fel y nodir yn ein cynllun busnes eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar ein cwsmeriaid a'n cymunedau, y gellir ei gweld drwy gyflawni gwelliannau fel cerbydau newydd, gwelliannau digidol, buddsoddiadau mewn gorsafoedd, gwasanaethau rheilffyrdd a bysiau integredig a datblygu cynlluniau seilwaith yn y tymor hir.

Gobeithio eich bod chi ac Aelodau'r Pwyllgor yn cadw'n iawn, ac edrychaf ymlaen at ein sesiwn flynyddol ar 22 Tachwedd i edrych yn fanylach ar y manylion.

Cofion cynnes

James Price

James Price
Prif Weithredwr

**Y Pwyllgor Cyllid**

**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@enedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

14 Tachwedd 2023

Annwyl Gadeiryddion Pwyllgorau,

## Cyllideb ddrafft 2024-25

Ysgrifennais atoch ym mis Ebrill i sôn am waith ymgysylltu'r Pwyllgor Cyllid cyn y gyllideb. Ar 12 Gorffennaf, cynhaliodd y Pwyllgor ei ddadl flynyddol yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gyllideb arfaethedig, ac rwy'n ddiolchgar i bawb a gyfrannodd. Rwy'n ysgrifennu'n awr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25.

### Ymgynghori a'r amserlen

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi ei ymgynghoriad cyn y gyllideb, ar ran pob Pwyllgor, sy'n cau ar 30 Tachwedd. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan.

Gan y bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi datganiad yr hydref ar 22 Tachwedd, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Cymru (y Gweinidog) wedi cadarnhau y bydd yn cyhoeddi'r Gyllideb amlinellol ddrafft a'r gyllideb fanwl ddrafft gyda'i gilydd ar 19 Rhagfyr. Bydd y Gweinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid y diwrnod wedyn, ar 20 Rhagfyr, ar gyfer sesiwn dystiolaeth gychwynnol.

### Ffocws y Gyllideb

Mae'r gyllideb eleni yn debygol o ganolbwyntio ar effaith yr argyfwng costau byw, chwyddiant a

thryloywder penderfyniadau ariannol Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi nifer o feysydd yr ydym am i'r gwaith craffu ganolbwyntio arnynt, sef:

- pa effaith y mae pwysau chwyddiant yn ei chael ar gyllidebau refeniw a chyfalaf a sut mae hyn wedi newid fforddiadwyedd cynlluniau blaenorol;
- sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu;
- i ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd;
- sut mae dyraniadau cyllideb yn cefnogi'r dyheadau yng nghynllun Sero Net Cymru;
- polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac effaith yr argyfwng costau byw ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau;
- yr agwedd tuag at wariant ataliol, a sut y mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y broses o ddyrannu adnoddau (caiff gwariant ataliol ei ddiffinio fel gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);
- cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau
- sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb
- sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca.
- cefnogaeth i fusnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl i'r cyfnod pontio ar ôl gadael yr UE ddod i ben.

Yn ogystal â hyn, nodwyd y meysydd a ganlyn fel blaenoriaethau yn ystod y digwyddiadau i randdeiliaid a'r gwaith ymgysylltu a drefnwyd gan y Pwyllgor yn ystod tymor yr haf:

- yr angen i wasanaethau gydweithredu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r GIG a'r sector gofal cymdeithasol;
- yr angen i roi digon o adnoddau i lywodraeth leol fedru ymdrin â phwysau cynyddol
- yr angen i roi mwy o gymorth i'r rhai sy'n astudio ac yn gweithio yn y sector addysg;
- yr angen i ganolbwyntio ar fesurau ataliol ac atebion dan arweiniad y gymuned i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi ac anghydraddoldeb;
- yr angen i roi'r gorau i ariannu'r sector gwirfoddol drwy drefniadau ad-hoc

- yr angen i ganolbwyntio ar wireddu potensial ynni gwyrdd Cymru.

Gobeitho y bydd ein gwaith ymgysylltu, a'r ymgynghoriad cyhoeddus arfaethedig, yn ategu ac yn llywio gwaith y Pwyllgorau polisi, a byddwn yn eich annog i ddefnyddio rhai o'r meysydd a amlinellir uchod fel ffocws wrth i chi graffu ar y gyllideb.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y gyllideb ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu ag Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6388, seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon